

Thema: Cymuned a newid

Mae'r thema hon yn ymwneud â'r broses o newid mewn cymunedau. Mae'n awgrymu dulliau o archwilio ystyr y gair 'cymuned' ar lefel leol mewn tri lleoliad - Caerdydd, Penrhys a Matagalpa. Galluoga'r thema fyfyrwyr i edrych ar y ffactorau dan ystyriaeth yn ystod y broses o newid. Gellir trafod hyn wedyn yng nghyd-destun newidiadau yn eu hardaloedd eu hunain.

Mae'r prosiect yn cynnig cyfleoedd i athrawon i ddysgu rhywbeth am gymunedau'r naill a'r llall. Datblygodd yr ymagweddiad a amlinellir yn y thema hon o drafodaethau mewn gweithdai ynglŷn â phwnc datblygiad yn y tri lle. Byddai'n fuddiol i fyfyrwyr i ddefnyddio proses gyffelyb i astudio eu cynefin eu hunain gan gymharu eu darganfyddiadau gyda'r astudiaethau hyn.

Nod

- i astudio'r cysyniad o gymunedau mewn gwahanol leoliadau.
- i gynnig cyfle i archwilio dylanwadau mewnol ac allanol a all beri newid o fewn cymunedau.

Amcanion

- i ddeall anghenion cymunedau
- i ddeall bod gofynion cymuned 'ehangach' yn dylanwadu ar gymuned.
- i ddeall y gwahaniaeth, a'r hyn sy'n gyffredin, rhwng ymwneud gwahanol gymunedau â'r broses o newid.
- i gydnabod pwy sydd â'r grym i ddylanwadu ar newid yn y gymuned.
- i astudio gwahanol fathau o ddyfodol i'r cymunedau.

Adeiladu ar waith maes

Ffactor allweddol ym mhroses y gweithdai gwreiddiol oedd defnydd o'r hyn a alwyd yn 'ymdriniaeth gwaith maes'. Yr hyn a olygwn gyda hyn yw inni ddefnyddio ein cynefin ein hunain i uniaethu ac astudio materion datblygu.

Tra'n defnyddio'r thema hon, gobeithiwn y bydd cyfle i fyfyrwyr i fynd allan i'w cynefin eu hunain ac i ganfod gwybodaeth am faterion yn ymwneud â newid.

Gallai hyn olygu eu bod yn ymdrin â'u cynefin agos e.e. edrych ar ddyfodol man diffaith yn yr ardal, adeiladau wedi eu gadael yn adfail neu ddatblygiad siopa newydd. Un dewis arall fyddai uniaethu gyda phrosiectau sydd ymhellach o ddalgyrch yr ysgol.

Mae'r astudiaethau yn yr adran hon ynglŷn â:

- gweledigaeth ddyngarol o gymuned.
- newid pwyslais o fewn cymuned.
- cymuned yn gweithio dros newid o'r tu mewn, Penrhys, Rhondda.
- y berthynas rhwng llywodraeth leol a'r gymuned, Butetown, Caerdydd.
- dylanwad 'asiant newid' mewn cymuned yn Matagalpa, Nicaragua.

Beth yw cymuned?

Cymuned yw nifer fawr neu nifer fechan o bobl sy'n dibynnu ar y naill a'r llall o bryd i'w gilydd. Maent yn cynorthwyo mewn ffordd gyfeillgar. Rhennir perthynas glos mewn cymuned.

Cymuned yw'r fan lle 'rydych yn byw, y bobl o'ch cwmpas, eich cyfeillion a'ch teulu.

Cymuned yw rhywle lle mae cyndogion yn helpu ei gilydd, cael sgwrs dros glawdd yr ardd, hel straeon, cael partion a bod ar gael pan mae angen. Fyddwn i ddim yn galw lle 'rydw i yn byw yn gymuned, gan nad oes ots gan bobl beth sy'n digwydd i eraill.

Cymuned yw cyd-ymwneud pobl â'i gilydd, criw o bobl yn dod ynghyd, y cyfle i drafod problemau.

Cymuned yw lle mae pobl yn byw a lle mae rhywrai yn gweithio er mwyn helpu eraill. Ni fydde cymuned yn bosib pe na bai pobl o gwmpas. Os nad yw rhywun yn hoffi ei gymuned, yna mae'n gweithio gydag eraill i wella'r gymuned honno.

BETH DDAW I'CH MEDDWL CHI WRTH GLYWED Y GAIR 'CYMUNED' ?

Beth am gymunedau teledu - operâu sebon - Pobl y Cwm, Eastenders, Coronation Street?

Isod fe welwch ddau ddyfyniad cyferbyniol am gymuned. Beth yw eich barn chi?

'Beth yw adnabod? Cael un gwraidd
Dan y canghennau.' Waldo Williams (bardd)

'There is no such thing as community'
Margaret Thatcher. (cyn Brif-Weinidog)

Waldo Williams yw un o'r beirdd a ganodd amlaf am gymuned. Darllenwch 'Preseli' a 'Brawdoliaeth' a 'Pa Beth yw Dyn?'.

Beth yw cymuned? - gweithgareddau cychwynnol

Mae'r gweithgareddau cychwynnol hyn yn fodd i greu trafodaeth ynglŷn â'r hyn a olygwn wrth y gair 'cymuned'. Maent yn canolbwyntio ar wahanol fathau o gymuned, a'r gwahanol fuddiannau gan bobl sy'n gallu arwain at wahaniaeth barn rhwng cymunedau.

Sut mae cymuned yn datblygu?

Mae yna syniad o **berthyn** i gymuned yn datblygu drwy:

- **mathau o waith** - ffermio, cloddio am lo, chwareli llechi, pysgota
- **hunaniaeth grefyddol gyffredin** - Anghydfurfwyr, cymuned Iddewig, lleiandy, yr Eglwys Uniongred ym Mlaenau Ffestiniog, y Mwslimiaid yng Nghaerdydd a Chasnewydd.
- **profiad cyffredin o fod yn rhan o leiafrif o fewn cymuned ehangach** - siaradwyr Cymraeg mewn tref fawr, Gwyddelod ym Birmingham, sipsiwn, pobl y Caribi yng Nghaerdydd.
- **syniadau ac amcanion cyffredin** - ymuno i atal pwll glo rhag ei gau, protestio am ddatblygiad peryglus, gweithio ynghyd i gael maes chwarae i blant, protestio am gau ysbyty.

Mae casgliad o luniau yn ffordd ddefnyddiol o gyflwyno gwahanol fathau o gymunedau. Mewn grwpiau, gallai plant drafod yr hyn sy'n digwydd yn y ffotograffau.

Gofynnwch iddynt feddwl am wahanol gymunedau a bortreadir gan y cyfryngau, e.e. Pobl y Cwm, Coronation Street, Eastenders, a thrafod:

- beth sy'n arbennig am y grwpiau hyn sy'n eu gwneud yn gymuned?
- beth sy'n dod â'r bobl hyn at ei gilydd?

Eich cymuned chi.

I amlygu'r syniad ein bod oll yn rhan o gymuned, gofynnwch i'r myfyrwyr restru'r bobl y maent yn eu cyfarfod mewn wythnos, a'r manau lle maent yn cyfarfod y bobl hynny. Syniad arall fyddai cyflwyno rhestr o bobl a llefydd e.e. cynghorydd, siopwr, staff y gegin, person lolipop, rhieni, perthnasau, athrawon, postmon, dyn llefrith, casglwyr sbwriel, arweinwyr crefyddol, heddlu, gofalwyr, pobl drws nesa, arweinwyr clybiau, prifathro, aelod seneddol/cynulliad, meddyg, person rhannu papur newydd.

Gofynnwch i'r myfyrwyr nodi ar y bwrdd dartiau (tudalen nesa) y bobl a'r manau sydd o'r pwysigrwydd mwyaf a'r pwysigrwydd lleiaf iddynt. Dylid gosod y rhai pwysicaf yn y canol. Gallent rannu eu barn mewn parau.

Gofynnwch i'r myfyrwyr mewn grwpiau i drafod yr hyn sydd yn rhoi synnwyr o gymuned/grŵp iddynt, a sut y maent yn dangos hyn - dillad/enw/bathodyn/ manau cyfarfod.



Mae'n debygol y bydd rhai yn perthyn i fwy nag un gymuned/grŵp e.e. yr ysgol, y gymdogaeth y maent yn byw ynddi, grŵp ethnig.

Gallai'r myfyrwyr ddefnyddio'r bwrdd dartiau eto i'w helpu i feddwl i ba gymunedau y maent yn perthyn, gan roi y rhain yn nhrefn blaenoriaeth, a gosod y rhai pwysicaf yn y canol. Faint y mae nhw yn ei gyfrannu i'r gymuned? A wyddant sut y cychwynnodd y gymuned? Pwy sydd yn ei harwain?

Gallai myfyrwyr lunio map meddyliol o'u cymuned. Os dewiswyd cymuned ddaearyddol ganddynt, dylent osod ar y map yr holl adeiladau sydd o bwysigrwydd iddynt, e.e. y ganolfan iechyd, y llyfrgell, y capel.

Beth garent hwy ei wella yn y gymuned y maent yn byw ynddi? Sut fydden nhw yn gwneud hyn? Gallai myfyrwyr feddwl am bobl a allai ddod i siarad â'r dosbarth neu bobl y gallent eu cyfweld

Beth yw cymuned? - bwrdd dartiau



Beth yw cenedl?

Yn ogystal â bod yn rhan o gymuned, yn perthyn i sir, yr ydym yn perthyn i wlad ac i genedl.

- Beth yw'r delweddau o Gymru sydd gan y myfyrwyr?
- Ydi dyfodiad y Cynulliad wedi cryfhau'r ddelwedd o Gymreictod?
- Sut mae'r byd yn gweld Cymru?
- Ydyn nhw'n meddwl am hen ddelweddau megis glowyr, corau meibion, cawl cennin (y math o ddelwedd a geir gan Max Boyce neu 'How Green Was My Valley')?
- Ydyn nhw'n meddwl am ddelweddau mwy modern fel ffatrioedd o Japan?

Mae rhai delweddau traddodiadol megis ffermio a rygbi wedi goroesi.

- Ydi canu - Bryn Terfel, Stereophonics, Manic Street Preachers - yn ffordd i bobl eraill glywed am Gymru?
- Ydi'r myfyrwyr yn ystyried Cymru yn wlad dlawd neu yn wlad gyfoethog?
- Sut mae'r myfyrwyr yn meddwl amdanynt eu hunain - fel Cymry, fel Prydeinwyr neu fel rhai sy'n perthyn i grŵp arall?

Disgrifiodd Waldo Gymru fel 'bro brawdoliaeth, fy nghri, fy nghrefydd'.

Dywedodd T.H. Parry Williams am Gymru, 'Ni allaf ddianc rhag hon'.

Meddai Gwenallt, 'Gorwedd llwch holl saint yr oesoedd a'r merthyron yn dy gôl'

Soniodd Tom Jones am 'the green green grass of home'

Meddai Cerys Mathews, 'I thank the Lord I'm Welsh'

- Gyda pha rai o'r dyfyniadau hyn y gall y myfyrwyr uniaethu? A gredant fod y syniad o Gymru wedi ei ramanteiddio? Sut fyddent hwy yn disgrifio'r wlad?

Y Cynulliad a Chenedl

- Ym mha fodd y mae'r Cynulliad wedi cynyddu'r grym sydd yn nwylo y Cymry?
- Ym mha fodd y mae grymoedd Senedd yr Alban yn wahanol i rymoedd y Cynulliad?
- Ydi'r Alban yn gallu creu delwedd gryfach o genedl gyda deddfau gwahanol?
- Beth mae'r Cynulliad yn ei wneud i sicrhau fod llais Cymru i'w glywed ym materion y byd?

Gweledigaeth Bournville

Yn ystod yr 1870au yr oedd nifer cynyddol o bobl yn beirniadu'r math o dai 'cefn wrth gefn' a adeiladwyd gan berchnogion ffatri yn ystod y Chwyldro Diwydiannol. Ar y pryd hwn, nid oedd y llywodraeth yn adeiladu tai. Adeiladodd rhai adeiladwyr preifat dai gwell i weithwyr a gâi eu talu'n well, ond nid oedd digon o le yn y tai hyn ychwaith. Dechreuodd rhai pobl gael agwedd newydd tuag at adeiladu a chynllunio. Un o'r enghreifftiau gorau yw George Cadbury.

Ym 1879, penderfynodd Richard a George Cadbury i symud eu ffatri siocled o safle bychan yng nghanol Birmingham i safle ar gyrion y ddinas, yn Bournville. Yno, ger y ffatri, fe godwyd ysgol ganddynt ar gyfer plant dosbarth gweithiol.

Crynwyr oedd y Cadburys a gredai y dylai person ddefnyddio ei gyfoeth i wella bywydau y rhai llai ffortunos. Erbyn 1893, yr oeddent wedi prynu digon o dir o amgylch eu ffatri i adeiladu Gardd Bentref Bournville.

Nid dymuniad George Cadbury oedd adeiladu pentref lle mai dim ond gweithwyr ei ffatri ef fyddai'n byw yno ...

Williams.

A

... Amhosib yw ceisio deall George Cadbury y person heb gydnabod dyfnder a phwysigrwydd ei ddaliadau fel Crynwr ... yr oeddynt yn gwneud defnydd o'u ffydd Gristnogol i ateb cwestiynau cymdeithasol.

*George Cadbury,
Walter Stranz, [1973]*

D

Bach iawn o gyfle sydd gan y gweithiwr yma, y gŵr y dymuna Mr.Cadbury wella ei gyflwr,... ychydig iawn o weithwyr gaiff gyflogau digonol i'w galluogi i dalu rhent o 6s 6ch (32 c) i 12 s (60c) yr wythnos.

Birmingham Mail [1902]

B

Cododd Bournville o'r syniad mai diwydiant oedd yn achosi slymiau a thlodi. Yr oedd y tirwedd yn mynegi'r ffaith mai'r gymdeithas ddelfrydol oedd y gymdeithas wledig.

*The Making of the
Industrial Landscape [1982],
B Trinder.*

Ch

Athroniaeth George Cadbury yw mai'r 'ffordd orau o wella amgylchiadau dyn yw codi ei ddelfrydau'... Sut mae modd i ddyn feithrin delfrydau pan mai slym yw ei gartref ac mai tafarn yw'r unig ffurf ar ddiddanwch?' ... Credai Cadbury fod cysylltiad rhwng tai a iechyd meddwl ... yn fwy na dim ... yr oedd yn fwriad gan Bournville i ddyrchafu ymddygiad dda yn hytrach na diod a budreddi.

The Home Front, P. Nuttgens [1989]

C

ROBERT OWEN (1771 - 1858)

'Natur roddodd yr ansawdd. Cymdeithas a'i cyfeiriodd'. *Robert Owen.*

Fe'i ganed yn y Drenewydd, Sir Drefaldwyn, yn fab i gyfrwywr a gwerthwr nwyddau haearn. Yn ddeng mlwydd oed, ym 1781, aeth yn brentis i ddilledydd Albanaidd yn Stamford, Swydd Lincoln lle dechreuodd amau pob ffurf ar grefydd gan eu bod yn gwrth-ddweud ei gilydd. Daeth i gredu fod cymeriad dyn yn cael ei lunio gan ei amgylchedd, a datblygodd gydymdeimlad dwfn â'i gyd-ddyn. Wedi cyfnod byr yn Llundain, aeth i Fanceinion ym 1788 i geisio gwneud ei ffortiwn. Wedi sawl methiant, llwyddodd i gael ei benodi yn ugain oed yn rheolwr melin nyddu gyda phum cant yn gweithio iddo. Erbyn diwedd y ganrif, yr oedd wedi prynu cwmni Melinau New Lanark.

Credai Rousseau, gan fynegi ei syniadau yn "Ymdriniaeth ar Anghydraddoldeb", fod cymdeithas yn hanfodol lygredig ac mai dim ond Natur oedd yn berffaith. Cytunai Robert Owen fod cymdeithas yn amherffaith, ond daliai fod modd ei diwygio. Cred Rousseau oedd fod dyn wedi ei eni'n dda, ond bod cymdeithas wedi ei lygru. Ni chredai Owen fod dyn yn ddrwg nac yn dda fel y cyfryw, ond bod trefniadau cymdeithasol diffygiol yn ei wneud yn ddrwg. Yr oedd y ddau felly yn llym eu beirniadaeth o gymdeithas fel ag yr oedd, ond yn cytuno mai addysg oedd y modd priodol i gywiro perthynas dyn a'i gymdeithas.

Rhoddodd Owen gynnig ymarferol ar wneud hyn drwy wella amodau yn y ffatri, addysgu plant, cwtogi oriau gwaith. Profodd hyn yn llwyddiant ysgubol a dadleuodd Owen dros sefydlu cyfundrefn addysg genedlaethol a nawdd i'r di-waith drwy sefydlu 'pentrefi cydweithredol'. Methiant fu ei arbrawf fodd bynnag yn Indiana. Fe'i beirniadwyd gan y Radicaliaid am iddo geisio rheoli'r tlodion yn ogystal â'u cynorthwyo, ac nid oedd crefyddwyr yn hoff ohono. Fe'i canmolwyd gan Karl Marx, ond nid edrychodd ar y frwydr rhwng gwas a meistr drwy lygaid y dosbarth gweithiol. Gwellu amodau oedd ei ddymuniad, nid chwyldroi'r drefn. Un o'i ddisgyblion oedd R.J. Derfel. Cafodd ei syniadau ddylanwad eang ym Mhrydain a'r America. Dychwelodd i'r Drenewydd i farw.

Cydymaith Llenyddiaeth Gymraeg.
Robert Owen a Rousseau, Hugh Johnes, Lleufer, Hydref 1959.



Llun Robert Owen -
<http://www.spartacus.schoolnet.co.uk/IRowen.htm>

Pan fo buddiannau'n gwrthdaro mewn cymuned

Nid yw cymunedau'n gweithredu yn annibynnol o'r naill a'r llall. Weithiau mae anghenion un gymuned yn gwbl groes i fuddiannau cymuned arall.

Gallai myfyrwyr gychwyn astudio'r syniad hwn drwy ddychmygu un o'r sefyllfaoedd canlynol:

- mwynloddio mewn ardal dwristaidd hardd.
- gwneud lle i sipsiwn mewn man lle mae pobl eraill yn byw.
- adeiladu argae mewn ardal boblog
- codi fferm wynt ar ben bryn uchel mewn ardal brydferth

Gallwch ddychwelyd at rai o'r gweithgareddau hyn eto pan fo'r myfyrwyr wedi darllen yr astudiaethau. I ba raddau mae'r diffiniad o gymuned wedi newid?

Er mwyn galluogi'r myfyrwyr i sylweddoli mor anodd yw dod i benderfyniad pan fo sawl safbwynt cyferbyniol, gallant gymryd rhan yn y Chwarae Rôl ar y dudalen nesaf.



Lluniau melinau gwynt o -

http://www.bbc.co.uk/norfolk/talk/images/wind_turbine90-110.jpg

a

<http://geoimages.berkeley.edu/Geolimages/BainCalif/CAL400/windfarm.jpg>



Y Fferm Wynt

Chwarae rôl

Dychmygwch bod cymuned Cwm Harddaf wedi ei rhwygo i lawr y canol am fod cynllun i gael 30 o felinau gwynt anferth ar y bryn uwchlaw'r cwm.

Rhannwch y dosbarth yn bedwar grŵp. Rhoddwch un o'r cardiau isod i bob grŵp. Dywedwch wrthynt fod cymuned Cwm Harddaf wedi ei rhwygo i lawr y canol a gofynnwch i'r disgyblion i actio'r rhannau a roddir iddynt a dadlau eu hachos.

Dylent sylweddoli, erbyn y diwedd nad oes yr un ateb yn mynd i fodloni pawb.

Y Ffermwr

Mae teulu Tom Williams wedi ffermio tir Bryn-hardd ers cenedlaethau ond mae gwneud bywoliaeth o'r tir wedi mynd yn fwy a mwy anodd ac ni fydd mab Tom yn medru cario mlaen i fyw a ffermio yn Bryn-hardd os na allant arall-gyfeirio. Buasai cael rhent gan y cwmni ynni am adael iddynt adeiladu'r melinau gwynt ar eu tir yn sicrhau y byddai dyfodol i fab Tom ar y fferm.

1

Gŵr lleol sydd allan o waith

Ychydig o gyfleoedd gwaith sydd yn ardal Cwm Harddaf ac y mae John Evans, labrwr 45 oed, tad i bedwar o blant, yn byw ar y dôl ers blwyddyn. Mae ef yn croesawu'r datblygiad oherwydd buasai gwaith adeiladu yno am fisoedd a hwyrach y gallai gael hyfforddiant i gynnal a chadw'r melinau gwynt, gan roi gwaith parhaol iddo.

2

Cynghorydd Sir

Mae'r cynghorydd Elizabeth Jones yn cefnogi'r datblygiad am y byddai'n datrys problem diweithdra yn y byr-dymor. Ond mae'n poeni bod yr elw o'r datblygiad ddim yn mynd i wella sefyllfa'r gymuned leol gan mai cwmni rhyngwladol â'i ganolfan yn y Almaen sydd yn codi'r melinau. Buasai'n well ganddi hi weld cymunedau yn codi ychydig o felinau ar gyfer creu trydan i'w hardal hwy yn benodol a gwerthu'r ynni ychwanegol i'r Grid Cenedlaethol.

3

Y Protestiwr

Mae Mrs. Amanda Parry wedi ymddeol yn ôl i Cwm Harddaf ar ôl byw a gweithio mewn swydd uchel yn Llundain ers 30 o flynyddoedd. Mae am gadw Cwm Harddaf yn le lle gall twristiaid ddod i fwynhau'r prydferthwch a'r tawelwch. Mae'n dadlau y byddai'r melinau gwynt yn creu sŵn ac yn distrywio'r golygfeydd gwylt. Er ei bod yn cefnogi polisïau gwyrdd, mae'n bendant mai nid melinau gwynt yng Nghwm Harddaf yw'r ateb.

4

Cymuned yn gweithio am newid o'r tu fewn

Penrhys - astudiaeth


Ar ddiwedd y chwedegau, roedd pethau'n edrych yn dda yn y maes glo yn Ne Cymru. Penderfynodd y cyngor bod angen adeiladu tai newydd ar gyfer yr holl lowyr yr oeddent yn tybio a fyddai yn dod i'r ardal o Ogledd Lloegr i weithio.

Comisiynwyd pensaer i lunio pentref uwchlaw y cymoedd traddodiadol i fyny ar drum y mynydd rhwng Rhondda Fawr a Rhondda Fach, yn agos i hen fangre pererinion yn y Canol Oesoedd sef ffynnon gysegredig y Santes Fair Penrhys.

Er i'r cynllun ennill gwobr i'r pensaer, deunydd eilradd a ddefnyddiwyd i adeiladu'r tai; daeth yr argyfwng olew a dechrau edwino y Maes Glo. Felly ddaeth y glowyr ddim lawr yn lluoedd o Ogledd Lloegr a'r bobl a aeth i fyw i Benrhys oedd pobl na fedrai ddod o hyd i dŷ yn y cwm ei hun a phobl ar gyron cymdeithas nad oedd croeso iddynt mewn mannau eraill.

Cafodd Penrhys yr enw o fod yn un o'r llefydd gwaethaf i fyw ynddo yn Ne Cymru, roedd graffiti a sbwriel dros y lle, roedd y tai a adeiladwyd yn wael ac yn mynd o ddrwg i waeth, roedd yno gyffuriau, drwgweithredu, trais. Ond roedd yno hefyd bobl onest, gweithgar a oedd yn anobeithio wrth weld eu cymuned yn dirywio, a'u plant yn methu cael gwaith yn unig am eu bod yn rhoi cyfeiriad eu cartref fel "Penrhys".

Tua diwedd yr wythdegau, sefydlwyd prosiect Llanfair ym Mhenrhys gan eglwys unedig y cymoedd. Heblaw creu canolfan addoli, sefydlwyd cymuned o bobl a oedd am newid eu pentref o'r tu mewn. O dan arweinyddiaeth eu gweinidog Dr. John Morgans a'i dîm bychan o weithwyr, daeth y bobl ynghyd i ymladd am eu hawliau ac i greu gobaith allan o anobaith. Ni fu'n hawdd. Rhaid oedd brwydro yn erbyn biwrocratiaeth; rhaid oedd mynnu bod ganddynt hwy lais yn y penderfyniadau am ddyfodol y stâd.



Adnabod anghenion

Gan ddefnyddio'r dudalen sydd yn dilyn a gan weithio mewn grwpiau, gallai myfyrwyr wneud rhestr o'r problemau yr oedd angen i'r gymuned fynd i'r afael â nhw. Yn eu plith efallai, bydd rhai o'r rhain:

- diweithdra
- cyffuriau
- fandaliaeth
- diffyg gofalaeth
- diffyg cyfleusterau domestig
- ffenestri o safon gwael
- gwedd y fflatiau
- diffyg cyfleusterau chwarae
- gwasanaethau'r gymuned
- pobl yn dwyn ceir
- diffyg gofal meddygol.


Gofynnwch i'r plant restru'r problemau yn ôl eu dwyster. Gallent feddwl am flaenoriaethau tymor byr a thymor hir.

'Deg mlynedd o welliant ym Mhenrhys'

Mewn grwpiau, gallai myfyrwyr ysgrifennu cylchlythyr fel Partneriaeth Penrhys i ddathlu yr hyn maent wedi ei gyflawni yn y gymuned yn ystod y deng mlynedd a aeth heibio. Dylent ddefnyddio pytau o wybodaeth a datganiadau a wnaed gan y trigolion ar y tudalennau sydd yn dilyn i'w cynorthwyo.

Paratoi i fynd ar yr awyr.

Gwahanwch y myfyrwyr i grwpiau gwahanol. Mae un grŵp yn cynrychioli tîm cynhyrchu y rhaglen. Y cais yw ymchwilio i gymuned a gwneud rhestr o gwestiynau allweddol am Benrhys ar gyfer rhaglen radio. Mae grwpiau eraill yn cynrychioli gwahanol sectorau o gymuned Penrhys, y grŵp merched, pobl ifanc, y golchdy cyd-weithredol ac ati. Dylai pob un o'r grwpiau hyn baratoi ar gyfer cael eu cyfweld ar y rhaglen.



Lluniau gan Elwyn Thomas, Tylorstown o 'Penrhys: Stori Llanfair'

Cam wrth gam

Heddiw, er bod nifer o'r hen broblemau yn bodoli o hyd, mae ansawdd bywyd wedi gwella i gymuned Eglwys Llanfair, Penrhys.

Mae fy mhlant i yn mynd i'r clwb gwaith cartref bob nos.

A

Roedd fy merch yn priodi haf llynedd a chefais 'outfit' hyfryd yn y Siop Ail-law yn y prosiect.

B

Mae fy merch i yn dysgu chware'r piano yn y ganolfan.

C

Mae'r Cyngor yn fwy parod i drafod gyda ni a gwranddo arnom.

Ch

Rwy'n mynd i'r Coleg blwyddyn nesaf ar ôl dilyn cwrs arbennig yn y ganolfan

D



Rwy'n gallu gwneud fy ngolch yn y golchdy yn y ganolfan. O'r blaen, doeddwn i ddim yn gallu fforddio peiriant golchi.

Dd

Rwy'n helpu yn y caffi. Rydym yn paratoi prydau blasus, rhad bob amser.

E

Mae'r plant yn mynd i'r caffi bob nos Sadwrn yn lle bod mâs ar y stryd.

F

Rydym yn gallu mynd am wyliau i gyd gyda'n gilydd i ganolfan ieuenctid yng Ngogledd Cymru bob haf.

Ff

Gellir cael mwy o wybodaeth am brosiect Penrhys yn

'Penrhys: Stori Llanfair' gan John I. Morgans (Mudiad Addysg Gristnogol Cymru)

Llywodraeth leol a'r gymuned

- enghraifft o sut cafodd y gymuned leol ei diystyrru

Astudiaeth - Butetown, Caerdydd

Yn ystod y Chwyldro Diwydiannol, tyfodd pwysigrwydd y dociau yng Nghaerdydd yn aruthrol. Gyda De Cymru ymysg y cynhyrchwyr glo mwyaf yn y byd, daeth dociau Caerdydd yn allweddol i lwyddiant y diwydiant - oddi yma y cai glo ei gludo i wledydd dros y byd. Er i Gaerdydd fod yn borthladd bychan ers y Canol Oesoedd, fe dyfodd pan adeiladwyd Camlas Morgannwg ym 1778 i gysylltu Merthyr a Chaerdydd.

Ym 1839, agorodd John, Ail Farcwys Bute y West Bute Dock - dociau 19 acer o faint. Yn fuan wedyn, cafwyd estyniad Rheilffordd Dyffryn Taf (Taff Valley railway) a gysylltodd byllau glo y Cymoedd gyda phorthladd Caerdydd. Daeth y wagen gyntaf o lo y Rhondda i Gaerdydd ym mis Rhagfyr, 1855.

Erbyn 1890, Caerdydd oedd y porthladd a allforiaid y swm mwyaf o lo ym Mhrydain gyda 10 miliwn tonnall yn cael ei allforio ym 1913, pan oedd y diwydiant yn ei anterth. Canlyniad hyn oedd i'r porthladd ddenu cyfalaf rhyngwladol, a symbol o hyn oedd y Gyfnewidfa Lo a Llongau yn Sgwâr Mount Stuart. Buddsoddwyd yn drwm mewn peiranneg, gweithfeydd dur a thrwsio llongau. I weithio'r rhain i gyd, daeth mewnfwydwr o bob cwr o'r byd.

Y rhai cyntaf i ddod oedd pobl o Orllewin a De Cymru, ac o Iwerddon, Lloegr a'r Alban. Yna daeth pobl o Groeg, Ffrainc, Trefedigaethau Ffrainc, Yr Almaen, Sbaen, Portiwgal, Cape Verdes, Malta, Yr Eidal, Twrci, Cyprus, China, Malaya, India, Pakistan, Bangladesh, Yemen, Aifft, Somalia, Iwerddon, Pwyl, Estonia, Latvia, Yr Iwcrain, Norwy, Ffindir, Sierra Leone, Liberia, Nigeria, De Affrica, Camerwân, Gambia, De America, Jamaica, Barbados, Trinidad, St Lucia, St Kitts, Honduras Brydeinig, Gogledd America a gwledydd eraill. Dyna chi bron hanner cant o wledydd.

Tua canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oedd cymuned Wyddelig lewyrchus yn ardal Newtown. Bwriad Marcwys Bute wrth godi Bute Town oedd y gallai'r safle ddenu pobl o gefndir cymdeithasol amrywiol, yn weithwyr o bob math. Wrth i'r dosbarth canol (capteiniaid, masnachwyr, adeiladwyr, rheolwyr a chlercod) symud allan, gwelwyd y dosbarth gweithiol rhyngwladol yn symud i mewn. Dynion oedd

y rhan fwyaf o'r bobl ddaeth i Gaerdydd. Unwaith yr oeddent yma, byddent yn aml yn priodi merched Cymoedd y De a rhannau eraill o Brydain - llawer a ddenwyd yma gyda'r gobaithe o gael gwaith gweini. Gyda phriodasau cymysg rhwng grwpiau ethnig amrywiol, daeth y Dociau yn gymuned gosmopolitan iawn, yn gyfoethog mewn dealltwriaeth a diwylliant. Daeth y lle i gael ei adnabod fel 'Tiger Bay'. Un o'r bobl enwocaf i ddod oddi yma yw Shirley Bassey.

Gyda dyfodiad y Rhyfel Byd Cyntaf, dechreuodd y dociau ddirywio o ran masnach. Serch hyn, arhosodd pobl Bute Town er gwaethaf sawl ymdrech i'w hailgartrefu.

Er i'r gwaith glo a'r fasnach longau ddirywio, parhaodd Caerdydd i dyfu yn economaidd. Fodd bynnag, aros yn eu hunfan wnaeth ardaloedd y dociau, megis Butetown, Newtown, Splott Isaf. Daeth y rhenti yn ormod i deuluoedd un rhiant a dechreuodd sawl teulu rannu un cartref. Dioddefodd rhai ardaloedd o garthffosaeth a draeniau annigonol. Rhwng hyn, gorboblogi, a chyndynrwydd landordiaid i wella cyflwr y tai, rhoddwyd straen mawr ar iechyd a hunan-les cymunedau traddodiadol y dociau. Y canlyniad oedd 'clirio slymiau' y gymuned 'liw' ar raddfa eang yn y 50au, y 60au a'r 70au. Bu ymgais fwriadol i roi enw drwg i'r lle gan bobl oedd yn awyddus i glirio'r lle ar gyfer datblygu.

Ym mis Tachwedd, 1946, ysgrifennwyd taflen Gymraeg *Creu Heddwch yn Bute Street* yn deyrnged i waith **Uned Gwasanaeth Heddychol** yn Bute Street. Yn arwain y grŵp hwn yr oedd Iorwerth John a wnaeth waith mawr i wella peth ar amodau tai digalon Bute Street. Agorwyd tŷ fel canolfan chwarae ar gyfer plant gyda lle i ddeugain ar y tro a hanner dwsin o oedolion i ofalu amdanant. Dyma rai dyfyniadau o'r llyfryn,

"Bute Street - yr ochr ddu i'r olygfa gymdeithasol yng Nghaerdydd. I'r llu Cymry a glywodd am y lle, diau bod yr enw'n awgrymu anlladrwydd a lladrata a thrueni. Yno yr ymgasgl gwehilion pob cenedl a hil, a daflwyd i fyny ar draethau'r porthladd enwog o'r dyfroedd duon."

Llywodraeth leol a'r gymuned

Rhydd ddarlun graffig o amgylchiadau byw gwraig o'r enw Mrs. Warren.

"Y mae ganddi hi un stafell mewn hen dŷ sydd bellach yn llefain yn groch am ei adgyweirio. Saif y tap dŵr y tu allan. Trig Mrs. Warren a'i thri phlentyn yn yr ystafell hon, sydd yn gegin ac yn ystafell wely yr un pryd i'r teulu. Y mae ei gŵr wedi ei gadael. Mewn tloty y mae un o'i blant ef. Dyn o Canada yw tad un o'r plant ereill, a dychwelodd ef i'w wlad ei hun. Nid ei gŵr... yw tad y plant a gafodd ddiwethaf, sef efeilliaid. Nid yw'n syn clywed eu bod hwy wedi marw... Nid oes neb i'w helpu, oddi eithr ei mam, sy'n byw mewn ystafell arall yn yr un tŷ... Yn yr ardal ceir 6,000 yn byw mewn cylch a 'ail-gynlluniwyd' ar gyfer 3,500. Y mae anawsterau Mrs. Warren yn nodweddiadol."

Yn Bute Street y lleolwyd Canolfan Hanes a Chelf Butetown sy'n fan cyfarfod ac yn ganolfan sy'n cofnodi hanes bywyd pobl Butetown. Maent wedi cynhyrchu deunydd diddorol o safon.

Butetown History & Arts Centre,
4/5 Dock Chambers,
Bute Street,
Caerdydd
CF10 5AG

I gael blas y lle, gwrandewch ar ganeuon Meic Stevens sydd wedi canu llawer am y rhan hon o Gaerdydd.



Heddiw, mae Corfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd, mewn cydweithrediad gyda awdurdodau lleol, cyfalaf breifat ac eraill yn ceisio dod â bywyd newydd i ardal y dociau. Yn rhan o'r cynllun mae darpariaethau hamdden, mentrau masnachol a datblygiadau tai. Yn y Bae hefyd y lleolwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. VICTOR

Cân am Victor Parker - 'tad-cu'r gitâr Gymreig' oedd yn byw yn Loudon Square, ei dad yn ddu a'i fam yn wyn - 'Gwin a mwg a merched drwg'. Ef oedd y cynta yng Nghymru i gael angladd yn steil New Orleans.

Ar 'Gwin a Mwg a Merched Drwg' - Sain C608 N. 1987 (Caset yn unig)

2. YR EGLWYS AR Y CEI

Am yr eglwys bren Norwyeg yn y Bae.

'Sgwners o Stavanger, clipers Baltimore,
brics o Casablanca a Califfornaio,
tafarnau Bute a James Street yn llawn o forwyr glas
aros maent am lanw llawn er mwyn cael hwylio mas.'

Ar 'Er Cof am Blant y Cwm' - crai (CD 036) CD a Caset 1993



3. DOCIAU LLWYD CAERDYDD

Ar 'Gitâr yn y Twll Dan Stâr' - Sain 1273M LP a caset 1983.

Dylanwad 'asiant er mwyn newid' o fewn cymuned

Enghraifft : Nicaragua

Mae'r astudiaeth hon ynglyn â

- chyrrff o'r tu allan yn ymwneud â'r gymuned.
- swyddogaeth 'asiant er mwyn newid' yn y gymuned
- cymuned yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn newid.

NICARAGUA

Gwlad fechan tua'r un maint â Lloegr yw Nicaragua, yng nghanolbarth America - rhwng Honduras a Costa Rica. Mae ei phoblogaeth yn fychan, rhyw 4.1 miliwn o bobl. Hi yw un o'r gwledydd tlotaf yn y byd, ac mae iddi hanes tymhestlog.

Mae wedi dioddef erioed oherwydd ei bod dan sawdl yr Unol Daleithiau. Trefedigaeth yn perthyn i Sbaen ydoedd tan 1821, dyna pam mai Sbaeneg yw prif iaith y wlad hyd heddiw. Oherwydd ei phwysigrwydd yn ddaearyddol (y gred oedd mai yn Nicaragua y gellid adeiladu Canal Panama gyntaf), cymrodd yr Unol Daleithiau ddiddordeb mawr ynnddi gan ei meddiannu o ddechrau'r ugeinfed ganrif tan 1933. Wedi hynny, bu'r unben Somoza yn gweithredu yn ddi-drugaredd tan y Chwyldro ym 1979. Y flwyddyn honno, llwyddodd y Sandinistiaid, plaid asgell chwith, i goncro'r unben a chychwyn cyfnod newydd yn hanes y wlad.

Cydiodd y fuddugoliaeth hon yn nychymyg y byd, ac am 10 mlynedd, bu grwpiau o bob math o wledydd yn dod i Nicaragua i helpu'r gweithwyr. Byddent yn gwneud pob math o waith ac yn cyd-fyw gyda'r bobl leol. Tra'r oedd y Sandinistiaid mewn grym, bu'r Unol Daleithiau yn rhyfela yn eu herbyn gan gefnogi'r adweithwyr yn Nicaragua, y 'contras'. Daeth tro ar fyd ym 1990 pan gollodd y Sandinistiaid yr etholiad.

Ers hynny, lleihaodd y brwydro, ond llithrodd y wlad yn ôl i dlodi enbyd nas gwelwyd ei debyg ers cyn 1979. Mae Nicaragua wedi cael mwy na'i siâr o drychinebau naturiol hefyd - daeargrynfeydd, llosg fynyddoedd a llifogydd. Un o'r trychinebau mwyaf oedd Corwynt Mitch ym 1998.

Mae Nicaragua angen cymorth yn fwy nag erioed. Mae sawl asiantaeth yn gweithio yno - Cymorth Cristnogol, CAFOD, Oxfam ac eraill. Ers diwedd yr Wythdegau mae grŵp yng Nghymru yn canolbwyntio ar gefnogi'r wlad - Ymgyrch Gefnogi Nicaragua.



Map o Nicaragua - www.feelgoodcoffee.co.uk/wherefrom/map.gif

Dylanwad ‘asiantaeth newid’ o fewn y gymuned

Mae Cymorth Cristnogol yn fudiad sydd yn cyd-gweithio gyda phobl leol yn eu cymunedau er mwyn gwella bywydau pobl. Slogan y mudiad yw ‘Credwn mewn byw cyn marw’. Mae yn codi arian ac yn addysgu pobl am y rhesymau am dlodi er mwyn eu helpu i’w oresgyn. Mae prosiectau mewn partneriaeth yn sylfaenol i’w ffordd o weithio.


Yn Nicaragua, mae tref Matagalpa wedi bod yn un o bartneriaid Nicaragua ers 1992. Un o’r rhaglenni yw Canolfan Cefnogi’r Plant sy’n Gweithio, ac mae 82 o blant yn y ganolfan, llawer ohonynt yn gweithio yn y marchnadoedd. Mae’r ganolfan yn cynnig sgiliau ymarferol i’r plant tra’n mynnu eu bod yn cael rhywfaint o addysg.

Er y byddai’n ddelfrydol i’r plant gael addysg drwy’r amser, rhaid cydnabod fod yr incwm a gaiff y plant yn hanfodol i gynhaliath y teulu. Mae’r ganolfan yn sylweddoli hyn, ond yn pwysleisio pwysigrwydd gorffwys a chwarae gan gynnig chwaraeon, dawnsio ac ambell drip. Peth arall a gaiff y plant yw cinio canol dydd yn y ganolfan, yn aml yr unig bryd o fwyd a gant mewn diwrnod.

Un o blant y ganolfan yw Marvin Flores Picado, bachgen 14 oed sy’n byw yn Matagalpa. Mae’n cofio Corwynt Mitch ym 1998 yn iawn. Daeth y dŵr i’r tŷ yn sydyn, a bu’n rhaid iddo ddianc am ei fywyd. Mae ganddo dri brawd a thair chwaer fach. Wrth i’r dŵr ddod i mewn i’r tŷ, cariodd y bechgyn eu chwirydd allan.

Yn y farchnad, glanhau esgidiau yw gwaith Marvin. Mae’n codi am 5.30 y bore a gall ennill o gwmpas £1.35 y dydd. Heb fod ymhell, mae gan ei fam stondin yn gwerthu losin a bisgedi. Weithiau mae’n rhoi yr arian i’w fam, dro arall mae yn ei gadw i dalu am y bws neu ffioedd ysgol.

Pan yn y ganolfan, mae Marvin yn dysgu gwnio gyda llaw a gwnio gyda pheiriant. Hoffai gael bod yn deiliwr wedi tyfu. Wedi Corwynt Mitch, bu Marvin yn helpu i godi tai brics gydag aelodau eraill y gymuned. Yn anffodus, mae’r tai newydd ymhellach o ganol y dref, o’r ysgol ac o’r farchnad. Er mwyn cyrraedd yn ôl ac ymlaen, rhaid i Marvin yn awr ddal dau fws, ac mae ei gostau wedi codi.



Llun Marvin -

<http://www.stgeorgesnews.org/2000/07f05.htm>

Cwestiynau i'w trafod gan y dosbarth

A yw'n bwysig fod mudiadau megis Cymorth Cristnogol yn gweithio ar y cyd gyda'r bobl leol? Oni fyddai yn fwy effeithiol cael pobl wedi eu hyfforddi yn barod yn y gorllewin, a'u hedfan yn syth i wledydd megis Nicaragua i roi trefn ar bethau. Beth fyddai anfantais cynllun o'r fath?

Am wythnos bob mis Mai, mae Cymorth Cristnogol yn casglu arian o dŷ i dŷ. A ddylai'r mudiad ganolbwyntio yn llwyr ar godi arian ac anfon pob ceiniog i wledydd eraill, neu a yw hi yr un mor bwysig i addysgu pobl yng ngwledydd Prydain am y sefyllfa mewn gwledydd tlawd fel Nicaragua?

Ym mha fodd y credwch y gallai Cymorth Cristnogol helpu Marvin a'i deulu orau?

A yw'n iawn caniatáu i Marvin weithio, neu a ddylid rhoi yr arian i Marvin iddo allu cael addysg amser llawn?

Gweithgaredd o daflen Cymorth Cristnogol:

Penderfyniadau'r Gorffennol

Trafodwch unrhyw benderfyniadau a wnaed gan bobl yn eich grŵp chi yn y gorffennol (e.e gweithio ddydd Sadwrn, cael gwersi chwaraeon neu gerddoriaeth ychwanegol ac ati). Trafodwch a ydyn nhw wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'w bywydau hwy neu i fywydau pobl eraill. Edrychwch ar stori Marvin gan gymharu ei benderfyniad ef a rhai o'ch rhai chi.

Newid cymunedau

Roedd rhai o ddewisiadau pwysig Marvin yn golygu dewis cyfrannu at fywyd ei gymuned trwy helpu i adeiladu tai newydd.

1. Gofynnwch i'ch grŵp chi i benderfynu beth yr hoffen nhw ei newid yn eu hysgol neu yn y gymuned o'i chwmpas.
2. Gan weithio mewn grwpiau bach gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu pob awgrym ar ddarn o bapur gwahanol. Dowch â'r rhain at ei gilydd a gweld a oes rhai themâu cyffredin yn eu plith.
3. Penderfynwch weithredu ar sail un ohonynt.
4. Defnyddiwch y cwestiynau canlynol i benderfynu pa gamau i'w cymryd (llungopiwch hwy neu eu hysgrifennu ar y bwrdd).

Gwnaeth Corwynt Mitch ddifrod dychrynlyd yn Nicaragua, a Honduras, y wlad agosaf ati. Lladdwyd 4,000 o bobl a rhestrwyd 10,000 ar goll. Collodd 500,000 o bobl eu cartrefi. Wrth golli cartrefi, mae problemau megis diffyg dŵr a charthffosiaeth yn arwain at afiechydon. Beth yw'r peth pwysicaf i'w wneud i gymuned yn dilyn trychineb megis corwynt? ym mha drefn blaenoriaeth fyddech chi yn gosod y problemau?

- Sut grëwyd y sefyllfa yr ydych chi am ei newid?
- Sut ydych chi'n teimlo yn ei chylch?
- Beth ydych chi'n ei obeithio fydd yn digwydd?
- Pwy sy'n elwa ar y sefyllfa?
- Pwy sydd ar eu colled?
- Beth fedrwn ni ei wneud yn ei gylch?
- Gyda phwy y dylem ni drafod?
- Faint o amser fydd hynny'n cymryd?
- Beth yw'r camau cyntaf?
- Pwy sy'n gyfrifol am wneud beth?

Atgoffwch y grŵp bod camau a phenderfyniadau bach Marvin wedi ei arwain dipyn yn nes at ei nod.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Cymorth Cristnogol, ar e-bost:- caerdydd@christian-aid.org

neu 154 Stryd Fawr,
Bangor,
Gwynedd,
LL57 1NU

11 Heol Dŵr
Caerfyrddin,
SA31 1PY

27 Heol yr Eglwys
Newydd,
Caerdydd,
CF4 2DX